# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 14 MEDI 2020 am 1.00 y. p. | MONDAY, 14 SEPTEMBER, 2020 at 1:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | VIRTUAL MEETING |

| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2020.

**3** **<u>CRAFFU AR YMATEB Y CYNGOR I'R ARGYFWNG COVID-19 (GAN GYNNWYS YR EFFAITH ARIANNOL)</u>** (Tudalennau 9 - 26)

- Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

- Cyflwyno adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtni Cyllid.

**4** **<u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 27 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2020

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, J. Arwel Roberts

**Aelodau Portffolio**

Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol)
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol)
Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

**WRTH LAW**: Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 2)
Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 3)
Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY) (ar gyfer eitem 2)
Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (IH) (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Pwyllgor Swyddog (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorwyr Richard O. Jones, Dylan Rees, Nicola Roberts, Mrs Anest Frazer (Aelod Cyfetholedig), Cynghorwyr R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc) Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai), Pennaeth Gwasanaeth (Economaidd a Rheoleiddio) Dros Dro, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Sgriwtini (SR)

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS – PWYLLGORAU SGRIWTINI

Cafodd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei ystyried a chynnig sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac wedyn i'r Cyngor Llawn i benderfynu a fyddai'n cael ei fabwysiadu ai peidio.



DRAFT

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol y Protocol i'r Pwyllgor gan ddweud ei fod wedi'i gynllunio i gynorthwyo Cadeiryddion Sgriwtini yn eu gwaith heb effeithio ar eu hawdurdod na'u pwerau ac i ddarparu proses glir a hygyrch i'r cyhoedd allu lleisio eu barn i'r pwyllgorau sgriwtini.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod datblygiadau deddfwriaethol diweddar wedi pwysleisio gofyniad cyfreithiol i wrando ar lais y cyhoedd a bod cynnwys y cyhoedd yn hanfodol wrth i Gynghorau wneud penderfyniadau. O dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, 2019 y rhagwelir y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn ystod Haf 2020, mae dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol. Mae rhesymau ymarferol hefyd dros gyflwyno'r Protocol o ran sicrhau cysondeb a thryloywder i'r cyhoedd, i'r Aelodau ac i Swyddogion. Mae'r ddeddfwriaeth yn canolbwyntio ar alluogi pobl leol i leisio'u barn ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt, neu a allai effeithio arnynt. Er ei bod yn bosibl siarad yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu ar hyn o bryd, gan nad oes canllaw gweithdrefnol wedi'i gyhoeddi, efallai nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae'r Protocol yn rhoi cyfle i roi canllawiau clir, teg a ffurfiol ar waith i roi gwybod i'r cyhoedd ac Aelodau'r Pwyllgor am y trefniadau ac i sicrhau bod y disgwyliadau ynghylch y broses siarad cyhoeddus yn cael eu rheoli. Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y Protocol terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn ogystal ag ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol fel y gall y pwyllgorau Sgriwtini gyrraedd y cyhoedd, gan gynnwys cynulleidfaoedd nad yw o bosibl wedi'u cyrraedd o'r blaen.

O ran manylion y Protocol, cyfeiriodd y Swyddog at y prif ddarpariaethau fel a ganlyn–

- Bydd y Swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith gweinyddol o dan y Protocol mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd Sgriwtini perthnasol;
- Gall aelodau'r cyhoedd wneud cais i siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Sgriwtini os ydynt wedi cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Swyddog Sgriwtini o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid gwneud y cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol o wefan y Cyngor a dylid annog y cyhoedd i'w hanfon ar-lein.
- Dylai unrhyw geisiadau/dogfennau ysgrifenedig hefyd fod ar gael 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y pwyllgor ar yr un pryd ag y cofrestrir y cais i siarad. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng caniatáu digon o amser i'r unigolyn gofrestru cais i siarad a pharatoi'r wybodaeth berthnasol, a sicrhau bod gan Swyddogion ddigon o amser i wneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol gan gynnwys gwirio addasrwydd unrhyw ddeunydd a gyflwynir. Mae hefyd yn rhoi amser i Aelodau'r Pwyllgor baratoi ar gyfer y wybodaeth a gyflwynir.
- Caiff aelodau'r cyhoedd eu hannog i adolygu Blaen Raglenni Gwaith Pwyllgorau Sgriwtini sy'n nodi'r pynciau y bwriedir eu hystyried – mae'r Protocol yn cynnwys dolen ddigidol i'r rhaglenni gwaith.
- Gall un person siarad o bob grŵp neu blaid os oes gan bob grŵp neu blaid rywbeth gwahanol i'w ddweud. Y nod yw sicrhau bod y Pwyllgorau'n clywed pob safbwynt, ond nad yw'r cyfraniadau'n ailadroddus. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor ddisgresiwn i ganiatáu i ail/trydydd siaradwr gyda'r un persbectif mewn achosion eithriadol a lle mae'n amlwg bod dadleuon gwahanol i'w clywed. Yn unol â phwerau cyfreithiol, bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor ddisgresiwn o hyd o ran arfer pwerau wrth lywyddu dros y cyfarfod. Eglurir hynny yn y Protocol.
- Bydd pob siaradwr yn cael pum munud i wneud eu cyfraniad.

Mewn ymateb i gwestiynau'n codi o'r adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ymhellach –

- O ran awdurdodau eraill sydd wedi cyhoeddi protocol ar gyfer siarad cyhoeddus mewn pwyllgor sgriwtini, gall yr amser a neilltuir i bobl siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfod amrywio, gyda rhai awdurdodau'n caniatáu 5 munud i bob siaradwr ac eraill yn caniatáu 3 munud.

DRAFT

- Bod y Protocol yn darparu ffordd drefnus a strwythuredig i aelodau'r cyhoedd roi eu barn ar faterion sydd o bwys iddynt, ond nid yw'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd gynnal trafodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini.
- O ran gwneud cais a chyflwyno gwybodaeth, ystyrir bod angen y cyfnod rhybudd o dri diwrnod er mwyn rhoi digon o amser i Swyddogion weinyddu'r cais ac i gadarnhau bod unrhyw ddogfennau a gyflwynir yn dderbyniol ac yn unol â'r amserlen statudol ar gyfer cyhoeddi papurau Pwyllgor. Ni ddylid ystyried cyhoeddi'r rhaglen fel yr unig ffordd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bynciau Craffu a'r hawl i siarad arnynt; os caiff y Protocol ei fabwysiadu, cynigir y dylid tynnu sylw ato drwy ddolen yn y Blaen Raglen Waith. Hefyd, gan fod y Cyngor yn cynnal nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol, efallai y bydd yn bosibl cynnwys datganiad safonol yn y wybodaeth am bob ymgynghoriad i dynnu sylw at hawl y cyhoedd i ofyn am gael siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini pan fydd y mater yr ymgynghorir arno yn cael ei drafod. Y nod fyddai darparu cyfarwyddiadau mewn mannau eraill am yr hawl i siarad mewn Pwyllgorau Sgriwtini a'r busnes a drafodir ynddynt fel nad yw'r cyhoedd yn dibynnu ar raglenni a phapurau a gyhoeddir i gael y wybodaeth hon.

Er bod y rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn gefnogol i'r Protocol fel y'i cyflwynwyd, ac yn derbyn ei fod yn ceisio ffurfioli ac egluro trefniadau siarad cyhoeddus ym Mhwyllgorau Sgriwtini y Cyngor, roedd y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Lewis Davies a Bryan Owen yn pryderu bod y protocol yn cyfyngu'n ormodol ar aelodau'r cyhoedd o ran yr amser a roddir iddynt wneud cais a chyflwyno gwybodaeth, ac i annerch y cyfarfod. Gallai ychwanegu at y pwysau ar unigolion a allai fod yn nerfus ynghylch siarad yn gyhoeddus neu deimlo'n emosiynol am y mater y dymunir siarad arno. Teimlai'r tri Aelod fod y trefniadau anffurfiol presennol o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd wedi gwasanaethu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dda hyd yn hyn.

**Ar ôl trafod y mater a bwrw pleidlais arno, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno â'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini fel y'i cyflwynwyd ac i'w argymell i'r Pwyllgor Gwaith. *(Pleidleisiodd y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Lewis Davies a Bryan Owen yn erbyn)***

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2019/20**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn cynnwys y trydydd Cerdyn Sgorio am y flwyddyn ariannol 2019/20 sy'n darlunio sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 3 i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol ei bod yn braf gallu adrodd bod 86% o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd Chwarter 3 yn parhau i berfformio'n uwch na'r targed neu o fewn goddefiant o 5% o'u targedau a bod y Cyngor yn parhau i wella wrth ddarparu ei wasanaethau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod Cerdyn Sgorio Chwarter 3 yn adlewyrchu un o berfformiadau gorau'r Cyngor ers cyflwyno adroddiad monitro'r cerdyn sgorio yn 2013. Mae DPA monitro perfformiad ar gyfer 2019/20 yn cyd-fynd â thri amcan strategol y Cyngor; ar ddiwedd Chwarter 3 mae'r perfformiad a fesurwyd felly wedi bod fel a ganlyn–

- O dan Amcan 1 (Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir) mae 9 o'r 13 DPA yn Wyrdd.
- O dan Amcan 2 (Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib) mae 12 o'r 17 DPA yn Wyrdd.
- O dan Amcan 3 (Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol) Mae 4 o'r 6 DPA yn Wyrdd a 2 yn Felyn.

DRAFT

Wrth drafod yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddogion ddadansoddi ac esbonio ymhellach yr agweddau canlynol ar berfformiad nad oeddent yn cyrraedd y targed. Dywedwyd wrth y Pwyllgor -

- O ran *Dangosydd (04b) – Cyfanswm canran y cwynion yr ymatebwyd yn ysgrifenedig iddynt o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)* a oedd yn GOCH gyda pherfformiad o 59% yn erbyn targed o 80%, fod y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Swyddog Cwynion i wella perfformiad a gyda rheolwyr tîm i sicrhau ymateb amserol i gwynion. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur yn adlewyrchu'r ffaith bod y Gwasanaeth yn gofyn am gytundeb yr achwynydd i fynd y tu hwnt i'r amserlen mewn achosion lle mae'r gŵyn yn gymhleth, a'i fod yn diweddaru'r achwynydd am y sefyllfa. Er bod y Gwasanaeth yn ymateb yn brydlon wrth dderbyn cwyn a hefyd wrth drafod y gŵyn gyda'r achwynydd, dim ond o ran darparu ymateb ysgrifenedig y mae'r Gwasanaeth yn tanberfformio.
- O ran *Dangosydd 19 - Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol am bob 1000 o'r boblogaeth 75+ oed* a oedd yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 6 yn erbyn targed o 3, yn gyffredinol mae'r contractau gofal cartref newydd ar sail ardal yn helpu i ryddhau pobl yn gyflym pan fydd ganddynt becynnau wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau o sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth ail-alluogi i bawb sy'n newydd i wasanaethau, mae sicrhau capasiti digonol yn her. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod y rhai sy'n derbyn gwasanaeth ail-alluogi angen y gwasanaeth hwnnw mewn gwirionedd, a bod y Gwasanaeth yn gweithio i symud unigolion pan fydd y cyfnod ail-alluogi wedi'i gwblhau. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gryfhau ei bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i hwyluso'r broses o ryddhau unigolion yn brydlon o ysbytai gan roi sylw penodol i ysbytai cymunedol. Yn ogystal â hyn, bydd y Gwasanaeth yn adolygu prosesau mewnol drwy gynnal cyfarfodydd wythnosol â'r darparwr gwasanaethau ail-alluogi er mwyn sicrhau bod pob ysbyty'n rhyddhau unigolion yn brydlon.
- O ran *Dangosydd 43 – Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt cyn pen 84 diwrnod*, a oedd yn OREN gyda pherfformiad o 69% yn erbyn targed o 80%, mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ystyried y llwyth gwaith oedd wedi cronni yn y maes hwn ac mae'r perfformiad presennol yn dangos cynnydd sylweddol wrth i brosesau newydd ddechrau gwreiddio ac yn sgil gwella capasiti ac arbenigedd ac wrth i'r llwyth gwaith gael ei glirio. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau dros weddill y flwyddyn ariannol ac mae disgwyl y bydd y Gwasanaeth Gorfodi yn dechrau 2020/21 mewn sefyllfa gryfach.
- O ran *Dangosydd 8 – nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden* a oedd yn Oren ar y Cerdyn Sgorio gyda pherfformiad o 385k o ymweliadau yn erbyn targed o 396K o ymweliadau, roedd y targed a osodwyd ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar berfformiad prysur yn 2018/19. Oherwydd rhywfaint o waith cynnal a chadw ac uwchraddio hanfodol i'r canolfannau hamdden, ni fu'n bosibl cyrraedd y targedau arfaethedig hyd yma eleni. Fodd bynnag, mae nifer y taliadau debyd uniongyrchol wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, a thrwy hynny yn sicrhau bod llif incwm cyson yn cael ei dderbyn pan nad yw nifer yr ymwelwyr yn cyrraedd targedau. Er y dylai cynnydd yn y ffigurau ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i fis Mawrth weld perfformiad yn dod yn nes at y targed, mae mwy o uwchraddio a gwaith atgyweirio ar ôl y difrod a wnaed gan stormydd yn ystod y tywydd garw diweddar yn debygol o gael effaith ar berfformiad Ch4. **Mewn ymateb i gais i egluro'r broses yn rhybuddio bod caffis o fewn canolfannau hamdden yn cau – tynnwyd sylw at y ffaith na chafodd plant ysgol lawer o rybudd ymlaen llaw, os o gwbl. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r rheolwyr perthnasol ac y byddai ymateb yn cael ei anfon at aelodau'r Pwyllgor gan gadw mewn cof hefyd fod peiriannau gwerthu yn cael eu darparu pan na ddarperir caffi.**
- O ran *Dangosydd 17 – Gwasanaethau Landlord*: *Nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau gwaith trwsio* a oedd yn Goch ar y Cerdyn Sgorio gyda

DRAFT

pherfformiad o 15.49 diwrnod yn erbyn targed o 12 diwrnod, mae’r newid yn y Polisi Atgyweirio a Chynnal a Chadw ym mis Hydref, 2018 wedi cael effaith ar y dangosydd hwn fel y nodwyd yn Chwarter 2. Bydd y Gwasanaeth Tai yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn a chymryd camau yn ôl yr angen i wella perfformiad

- O ran *Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlordiaid: Canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag* a oedd yn Goch ar y cerdyn sgorio gyda 1.55% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.15%, mae perfformiad gwael Dangosydd 35 ar y cerdyn sgorio (nifer y dyddiau a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau y gellir eu gosod) yn Ch1 a Ch2 wedi cael effaith ar y Dangosydd hwn ac ni fu'n bosibl cymryd yn ôl cymaint ag y gobeithiwyd. Mae rhai eiddo wedi bod yn wag am fwy o amser nag y byddai'r Gwasanaeth wedi'i ddymuno wrth fynd i'r afael â gwaith oedd heb ei gwblhau mewn perthynas â "methiannau derbyniol" (lle mae'r tenant wedi gwrthod mynediad i waith SATC) i sicrhau eu bod yn cyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru, tra bod eraill e.e. yr unedau yn Llawr y Dref - er eu bod nawr yn barod i'w gosod - yn wag tra bod y gwasanaeth yn ceisio sicrhau'r tenantiaethau mwyaf addas. Mae'r ffactorau hyn yn ogystal â gosod targed uchelgeisiol iawn ar gyfer y dangosydd hwn wedi cyfrannu at y perfformiad islaw'r targed.
- O ran *Dangosydd 38 - Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio* roedd y Pwyllgor am wybod pam fod y dangosydd yn Felyn ar y Cerdyn Sgorio pan fo perfformiad ailgylchu'r awdurdod ymhlith yr uchaf yn genedlaethol yn y DU. Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod y Gwasanaeth wedi bod yn archwilio'r dangosydd hwn yn fewnol oherwydd bod y ganran yn ymddangos yn isel. Yn flaenorol, casglwyd gwastraff bin DU yr Awdurdod gan Potters Waste Management gyda rhwng 120 a 140 tunnell o ddeunydd ychwanegol y gellid ei ailgylchu yn cael ei dynnu o'r gwastraff hwn gan Potters yn y cyfnod rhwng Ebrill a Mai 2018 ac unrhyw wastraff gweddilliol yn cael ei allforio i Sweden. Yn dilyn tân ar y safle, bu gostyngiad y ffigur hwn i 40 tunnell y mis. Mae gwastraff bin du yr Awdurdod bellach yn mynd i gyfleuster Parc Adfer ac er bod hyn yn gadarnhaol o safbwynt datgarboneiddio, nid yw'r gwastraff yn cael ei drin ymlaen llaw yn yr un ffordd ag yr oedd gan Potters; mae hwn yn fater y mae'r Gwasanaeth yn ymchwilio iddo. Ar nodyn cadarnhaol, defnyddir y gwastraff a losgir i gynhyrchu trydan a chaiff y lludw a geir yn ei sgil ei ailgylchu.
- O ran gwytnwch Gwasanaethau yn gyffredinol, yr oedd y Pwyllgor am gael sicrwydd yn ei gylch, yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau ychwanegol a allai fod ar wasanaethau yn sgil effaith Coronafeirws, dywedodd y Pwyllgor fod gan bob gwasanaeth gynllun parhad busnes yn ei le a bod yr uwch dîm arweinyddiaeth yn monitro'r sefyllfa. Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yw'r pwynt cyswllt yn Ynys Môn ar gyfer cyfathrebu ar lefel ranbarthol. Mae'r rhanbarth yn ei thro mewn cysylltiad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hysbysu'r cyhoedd ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd. Caiff Cynlluniau Parhad Busnes y gwasanaethau eu diweddaru hefyd yn unol â hynny.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r esboniadau a ddarparwyd gan y swyddogion yn y cyfarfod ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y'u hamlinellwyd ac i argymell y mesurau lliniaru cysylltiedig.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 4. MONITRO CYNNYDD: CYNLLUN DATBLYGU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y diweddariad yn darparu gwybodaeth am y gwaith/gweithgareddau sy'n cael neu wedi'u cyflawni mewn ymateb i Adolygiad Perfformiad Awdurdod Lleol AGC (Llythyr Adolygu dyddiedig Hydref 2019) a'i ymweliad monitro â Gwasanaethau Plant (cafwyd yr adborth ar Hydref 2019), ac fel rhan o waith parhaus y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wynebu heriau gwelliant parhaus ac mae'n parhau i ymrwymo i'r dasg.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnodd am sicrwydd bod y Gwasanaeth yn rheoli'r risg a berir gan alw cynyddol yn enwedig mewn perthynas â chyllidebau Gwasanaethau Oedolion lle rhagwelir y bydd gorwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gorwariant rhagamcanol yn deillio'n rhannol o faterion yn y gorffennol. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2020/21 yn ceisio unioni'r meysydd hynny lle bu gorwariant yn y gorffennol. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i graffu ar wariant o fewn Gwasanaethau Oedolion ac mae wedi rhoi cynllun ar waith i fonitro gwariant yn y maes hwn a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini. Mae rheoli gwariant mewn gwasanaeth sy'n seiliedig ar alw yn her ac mae Gwasanaethau Oedolion wedi bod dan bwysau yn ddiweddar yn sgil atgyfeiriadau cost uchel y mae rhai ohonynt wedi'u trosglwyddo o Wasanaethau Plant, rhai ohonynt o ganlyniad i unigolion yn symud i mewn i'r ardal. Mae poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at y pwysau ar Wasanaethau Oedolion. Ychwanegodd y Swyddog fod y pwysau yma wedi bod yn waeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a'u bod wedi arwain at orwariant yn y gwasanaeth ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hynny; cyn hynny, roedd Gwasanaethau Oedolion yn perfformio yn ôl y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn am werth y cyfleuster gofal ychwanegol yn Hafan Cefni o ran lleihau'r pwysau ar Wasanaethau Oedolion, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cyfleuster, wrth gynnig cyfle i bobl hŷn fyw'n annibynnol ac fel dewis amgen i ofal preswyl, yn profi'n werthfawr. Mae'r cyfleuster bellach yn llawn, a phe ba angen darparu ar gyfer holl drigolion Hafan Cefni mewn ffyrdd eraill, yna byddai'r pwysau ar Wasanaethau Oedolion wedi bod yn llawer mwy.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â graddau'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i fod**
- **Yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod cynnydd a graddau'r gwelliannau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**5. BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at ddiwedd mis Ebrill, 2020 i'w ystyried.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini, gan nad oedd unrhyw fater wedi'i amserlennu i'w drafod yn ystod mis Ebrill y Pwyllgor, 2020 fod angen penderfynu a ddylid parhau â'r cyfarfod ai peidio. Cytunodd y Pwyllgor, gan nad oedd eitemau ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill, y dylid gohirio'r cyfarfod.

**Penderfynwyd–**

- **Cytuno i fersiwn gyfredol y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2019/20 yn amodol ar ganslo cyfarfod mis Ebrill, 2020 y Pwyllgor.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Raglen Waith.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **14 Medi, 2020** |
| **Pwnc:** | **Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Craffu ar ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (gan gynnwys yr effaith ariannol)** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## 1 – Argymhellion

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**:**

- nodi ymateb y Cyngor i'r pandemig hyd yn hyn a chytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith, gan gymryd barn y Panel Sgriwtini Cyllid i ystyriaeth
- cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer craffu ar feysydd penodol o ymateb y Cyngor i'r argyfwng yn ystod 2020/21 a'r tu hwnt

**A2** Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y Byrddau Rhaglen yn cyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r ddau bwyllgor sgriwtini ar Gynllunio'r Adferiad a Chyflawni yn y Normal newydd

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae'r adroddiad hwn yn trafod ymateb y Cyngor i'r pandemig byd-eang o dan ddarpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, sy'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae gan y Cyngor rolau a chyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf wrth baratoi ac ymateb i argyfwng ar lefel leol.

## 3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. A yw'r Cyngor wedi blaenoriaethu a rheoli ei adnoddau'n effeithiol mewn ymateb i'r argyfwng?
2. A yw gweithredoedd y Cyngor hyd yma wedi bod yn amserol ac yn effeithiol mewn ymateb i'r sefyllfa argyfwng?
3. A oes gan y Pwyllgor farn ar briodoldeb ac effeithiolrwydd ymateb y Cyngor hyd yma ac a oes unrhyw feysydd i'w datblygu a gwersi i'w dysgu?
4. I ba raddau mae'r Cyngor wedi cydweithio'n effeithiol gydag eraill i gefnogi trigolion, cymunedau a busnesau'r Ynys?
5. Pa mor gadarn yw cynllunio'r Cyngor ar gyfer yr Adferiad a'r Normal newydd?
6. Pa feysydd penodol o ymateb y Cyngor y byddai'r Pwyllgor yn dymuno eu blaenoriaethu yn ei flaen raglen waith yn ystod 2020/21 a'r tu hwnt?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**1. CEFNDIR / CYD-DESTUN**

1.1. Mae Covid-19 yn glefyd heintus gyda nifer fawr o achosion ar hyn o bryd, sy'n effeithio ar dros 200 o wledydd ledled y byd[1], gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Felly mae'n wir dweud bod y pandemig yn cael effaith bellgyrhaeddol. Mae'r cyfnod hwn **(rheoli'r ymateb brys i'r Pandemig, y Cyfnod Adfer a dychwelyd yn raddol i'r Normal newydd)** yn gyfnod heriol eithriadol i'r Cyngor a phob sefydliad cyhoeddus arall ar draws Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Isod mae crynodeb o ddyddiadau allweddol pryd / sut esblygodd yr argyfwng yn lleol:

- 10 Mawrth – Sefydlu Grŵp Cydlynu Strategol
- 18 Mawrth – Sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng gan y Cyngor
- 23 Mawrth – Cyfnod clo i'r DU gyfan a gofyn i staff weithio gartref.

1.2. Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi cyhoeddi papur ynghylch Craffu yn ystod y pandemig (https://www.cfps.org.uk/?publication=covid-19-guide-2-scrutiny).

**2. RHESYMEG AR GYFER CRAFFU AR Y PWNC**

Mae'r achos dros graffu ar ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19 yn un hynod gryf:

i. Yn ystod cyfnod argyfwng, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig ac mae'n hynod bwysig bod Aelodau Etholedig a dinasyddion Ynys Môn yn cael sicrwydd bod y penderfyniadau a wneir yn briodol, yn amserol ac yn dryloyw
ii. Mae model arfer da'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cyfeirio at yr angen i Bwyllgorau Sgriwtini Cynghorau graffu ar drosolwg o ymateb y sefydliad i Covid-19
iii. Yn lleol, mae cylchoedd gorchwyl y ddau bwyllgor yn hwyluso'r broses o osod ffiniau ar gyfer craffu ar y pwnc

[1] Dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod achosion mewn 2016 o wledydd, ardaloedd neu diriogaethau ar 05/08/2020

iv. Mae bellach yn amserol i ni bwyso a mesur, a dysgu wrth symud ymlaen.

**Amcanion y gwaith sgriwtini**
Cynigir bod pum pwrpas i graffu ar ymateb y Cyngor:

- mesur effeithiolrwydd y strwythurau a'r trefniadau llywodraethu a'n prosesau mewnol ar gyfer rheoli'r argyfwng
- mesur llwyddiant y trefniadau i ddiogelu unigolion bregus (plant, pobl ifanc ac oedolion)
- mesur effaith y pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith - tymor byr a thymor canol. Derbyn adroddiad llafar gan y Panel Sgriwtini Cyllid (cyfarfod i'w gynnal ar 03/09/2020)
- cyfle i nodi gwersi i'w defnyddio i lywio ymateb y Cyngor i'r cyfnod Adfer ar gyfer y normal newydd
- cynorthwyo gyda'r gwaith paratoi ar gyfer unrhyw ymchwydd.

**YMATEB Y CYNGOR I'R PANDEMIG COVID-19**

**3. TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

3.1 Mae cynlluniau argyfwng ar gyfer Covid-19 yn disgyn o dan darpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 ac arweinir y gwaith yn genedlaethol gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru. Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar gyfer cynlluniau argyfwng ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i arwain yr ymateb i'r pandemig. Ar lefel ranbarthol, mae hyn wedi'i arwain a'i gydlynu gan y Fforwm Gwytnwch Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio) trwy'r Grŵp Cydlynu Strategol (GCS). Mae'r Cyngor wedi cyfrannu'n llawn at waith is-grwpiau thematig penodol sy'n adrodd i'r GCS:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Marwolaethau ychwanegol
- Y Cyfryngau
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

3.2 Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau lleol ac am gwrdd â gofynion deddfwriaeth ac arweiniad cenedlaethol perthnasol. Bu rôl monitro ac adrodd hefyd trwy'r strwythurau llywodraethu i ddylanwadu a hysbysu. Parhaodd y GSC i fod yn weithredol tan ddiwedd mis Gorffennaf 2020 ac yna cafodd ei ddisodli gan y Grŵp Adfer Rhanbarthol (cyfeirier at baragraff 7.3 am y manylion).

3.3 **Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (TRhYA) -** Ar lefel leol, sefydlodd y Cyngor Dîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (TRhYA) i arwain ymateb yr Awdurdod Lleol i Covid-19 [2]. Roedd yn cyfarfod yn ddyddiol i ddechrau ond bellach nid yw ond yn cyfarfod yn wythnosol. Mae ei aelodaeth yn cynnwys Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn ogystal â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Tîm yn gyfrifol am:

- cydlynu ymateb y Cyngor i'r pandemig
- cynnal gwasanaethau allweddol a gweithgareddau newydd
- cynllunio'r gweithlu
- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- iechyd a diogelwch.

Roedd y trefniadau llywodraethu lleol hefyd yn cynnwys paratoi Adroddiadau Sefyllfa bob dydd (hyd at 10/7/20) yn crynhoi materion a risgiau allweddol er mwyn llywio ac uwchgyfeirio materion oedd angen sylw / camau gweithredu i'r GCS. Mae'r adroddiadau lleol hyn yn parhau i gael eu darparu yn wythnosol (fel ar 15/07/20). Roedd yn ofynnol hefyd i bob awdurdod lleol baratoi Adroddiadau Sefyllfa wythnosol i'r GSC hyd at ddiwedd mis Awst, 2020. Bellach mae angen y

[2] Cafodd y Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng ei sefydlu yn ffurfiol ar 18/03/2020

rhain bob pythefnos ar gyfer y Grŵp Adfer Rhanbarthol sydd bellach wedi disodli'r GCS.

**3.4** **Ffrydiau Gwaith y TRhYA** – roedd is-grwpiau penodol yn eistedd o dan y TRhYA sy'n alinio â meysydd risg allweddol cychwynnol y Cyngor a'r strwythurau GCS rhanbarthol:

i. cymuned - gan gynnwys cydlyniant / tensiynau, gwirfoddoli a chefnogi unigolion bregus yn eu hardal leol
ii. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)
iii. cynllunio ar gyfer ymchwydd
iv. marwolaethau ychwanegol

3.5 **Cyfathrebu ac ymgysylltu gydag Aelodau** - mae'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi bod yn diweddaru Arweinwyr Grŵp yn gyson ac yn rheolaidd. Mae hyn wedi cynnwys diweddariadau dyddiol ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig a staff, sesiynau briffio[3] rheolaidd i Aelodau ac adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar:

- **15/06/2020. Diweddariad ar ymateb y Cyngor hyd yma i'r argyfwng Covid-19.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15765/Ymateb%20y%20Cyngor%20i%20Covid-19.pdf?LLL=1
- **13/07/2020. Coronafeirws - Cynllunio'r adferiad cynnar.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15828/Gwaith%20Cynllunio%20Cynnar%20ar%20gyfer%20Adfer%20yn%20dilyn%20yr%20haint%20Coronafeirws.pdf?LLL=1
- **17/08/2020. Coronafeirws – Diweddariad ar gynllunio a chyflawni'r adferiad.** Dolen i'r adroddiad isod: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16155/Y%20Sefyllfa%20Ddiweddaraf%20ar%20Gynllunio%20a%20Chyflawni%20Adferiad%20or%20Coronafeirws.pdf?LLL=1

3.6 Gellir gweld cryn dipyn o fanylion am ymateb y Cyngor hyd yma trwy'r dolenni uchod i adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol.
3.7 Mae gwefan y Cyngor hefyd wedi'i diweddaru'n rheolaidd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein hymateb lleol i'r pandemig a materion sy'n ymwneud â gwasanaethau. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn helaeth hefyd i gyfleu negeseuon a chyhoeddiadau allweddol.

## 4 MEYSYDD RISG ALLWEDDOL

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth arwain ac ymateb i'r argyfwng wedi cynnwys rheoli risgiau allweddol i warchod gweithlu'r Cyngor, trigolion, busnesau a chymunedau. Crëwyd cofrestr risg benodol o'r cychwyn cyntaf ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru bob wythnos. Mae'r risgiau allweddol wedi'u blaenoriaethu o ran amser ac ymdrech. Mae'r risgiau allweddol wedi cynnwys:

- cartrefi gofal
- profi, olrhain a diogelu (TTP)
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- delio ag achosion
- cefnogi teuluoedd bregus
- yr effaith ar sefyllfa ariannol y Cyngor
- yr effaith ar weithlu'r Cyngor

## 5 MATERION PENODOL I GRAFFU ARNYNT

Gan fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio gwaith mewnol y Cyngor, mae'n gwneud synnwyr i'r Pwyllgor graffu ar **agweddau mewnol, corfforaethol ar ymateb y Cyngor** i argyfwng Covid-19:

[3] Cynhaliwyd sesiynau Briffio i Aelodau ar 04/06/2020, 24/06/2020 a 02/07/2020

## 5.1 Darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i staff y Cyngor.

5.1.1 Yr her

Ar ddechrau'r pandemig, nid oedd gan y Cyngor:

- Cyflenwad digonol o PPE
- Lle pwrpasol i gadw PPE
- Proses gadarn ar waith i fonitro lefelau defnydd ar draws yr Awdurdod
- System archebu gydlynol ar draws Gwasanaethau a darparwyr allanol neu brosesau i fonitro lefelau stoc

5.1.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Creu Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer PPE.
b. Sefydlu Grŵp Llywio PPE traws-wasanaeth sy'n cyfarfod yn wythnosol i fonitro defnydd, lefelau stoc a blaenoriaethu archebu. Adroddir ar y gweithgaredd hwn yn wythnosol trwy'r Adroddiad Sefyllfa
c. Cyfarfodydd bob pythefnos gyda darparwyr Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod ganddynt gyflenwad digonol o PPE
d. Sefydlu cyfleuster pwrpasol i gadw PPE, wedi'i staffio, yn Canolfan Byron

5.1.3 Canlyniad

a. Er bod hwn yn faes risg sylweddol i'r Cyngor a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn ystod cyfnod cychwynnol y cyfnod clo, gwnaed cynnydd sylweddol o ran lefelau ac ansawdd cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n cael ei fonitro'n wythnosol ac adroddir arno yn yr Adroddiadau Sefyllfa wythnosol.
b. Mae'r lefelau stoc cyfredol yn ddigonol ar gyfer lefelau defnydd wythnosol gydag o leiaf 28 diwrnod o stoc ar gyfer pob eitem yn Canolfan Byron a 7 diwrnod o stoc mewn canolfannau gofal
c. Parheir i dderbyn cyflenwadau gan Lywodraeth Cymru a nodwyd mannau ychwanegol ymlaen llaw i gadw'r stoc er mwyn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ail don o'r pandemig.

## 5.2 Lles trigolion a staff cartrefi gofal y Cyngor

5.2.1. Yr her

a. Roedd lles preswylwyr a staff o'r pwys mwyaf yn ystod y pandemig ac yn enwedig gyda chyflwyno'r cyfnod clo a arweiniodd at deimladau o unigedd, pryder a straen i aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas ac i staff gofal rheng flaen mewn cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen.
b. Roedd sicrhau lles corfforol, emosiynol a seicolegol preswylwyr a staff a chynnal ymdeimlad o drefn a normalrwydd yn amcan allweddol ar adeg o ansicrwydd mawr. Sicrhawyd bod ymyriadau brys ar gael trwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol i hwyluso cyswllt personol ac ymgynghoriadau rhithwir gan weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol. Fodd bynnag, roedd gwaharddiad llwyr ar ymweliadau gan deuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill yn cynnal yr ymdeimlad o unigedd
c. Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i gartrefi gofal o'r gymuned ac ysbytai, roedd yn rhaid cadw at fesurau llym i reoli haint, defnyddio PPE, a dilyn cyfundrefnau profion amserol am Covid-19 a oedd yn golygu monitro agos ac ymyriadau amserol ac effeithiol gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol allweddol.
d. Roedd yr her o gynnal pellter cymdeithasol yn achos unigolion â dementia yn golygu monitro ychwanegol yn y cartrefi gofal er mwyn lleihau'r posibilrwydd o groeshalogi o ran y preswylwyr hynny oedd yn hunanynysu.

e. Rhaid canmol ymrwymiad ac ymroddiad staff rheng flaen am eu gofal ac am sicrhau lles preswylwyr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd yr effaith lawn yn yr hir dymor ar iechyd meddwl preswylwyr a staff, a dim ond ar ôl i'r pandemig ddod i ben y daw'n amlwg.
f. Bydd cynnal gofal a chefnogaeth yn ystod ail ymchwydd o'r pandemig yn her wrth i ymarferwyr rheng flaen gael eu heffeithio gan y feirws neu wrth i'r sefyllfa effeithio'n andwyol ar eu hysbryd. Bydd cynllun ar gyfer delio ag ymchwydd o'r pwys mwyaf a bydd angen ei weithredu'n dda, gan gynnwys rhoi sylw i anghenion emosiynol a seicolegol staff a phreswylwyr.

5.2.2. <u>Sut ymatebodd y Cyngor</u>

a. Roedd lles preswylwyr a staff yn eitem allweddol ar raglen cyfarfodydd y TRhYA. (Lefelau 1 a 2).
b. Mae cydlynu a dosbarthu cyflenwad wythnosol o PPE wedi chwarae rhan hollbwysig ar gyfer gwarchod lles staff a phreswylwyr cartrefi gofal ac i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.
c. Cyflwynwyd patrymau shifft cyfyngedig a hirach i leihau'r niferoedd oedd yn mynd a dod yn y cartrefi, yn enwedig mewn cartref gofal gydag achos o Covid-19.
d. Cyswllt dyddiol gan swyddog Iechyd yr Amgylchedd i drafod mesurau rheoli heintiau, defnyddio PPE yn ddiogel ac i gynorthwyo i egluro rheoliadau Llywodraeth Cymru sy'n newid yn barhaus.
e. Bu swyddog dynodedig yn helpu'r cartrefi gofal i nodi staff yr oedd angen eu profi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
f. Bu grŵp gweithredol yn cynnwys cynrychiolwyr o BIPBC a'r Awdurdod Lleol yn cyfarfod yn wythnosol i drafod materion proses mewn perthynas â PPE a phrofion ac i gytuno a dilyn cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau a heriau.
g. Roedd yr Unigolyn Cyfrifol yn y gwasanaeth darparwr yn cadw cysylltiad dyddiol â rheolwyr cartrefi gofal i roi cymorth, lleddfu pryderon, darparu atebion i faterion a godwyd
h. Cyfarfodydd wythnosol rhwng uwch swyddog y cartrefi, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr
i. Trefnwyd i welyau hunanynysu dynodedig fod ar gael mewn rhai cartrefi gofal (safleoedd Covid-19 Coch) i leihau'r risg o groeshalogi a throsglwyddo'r haint yn y cartrefi. Sefydlwyd mesurau arbennig a darparwyd staff ychwanegol i gynnal diogelwch a lles unigolion â dementia pan effeithiwyd ar arferion dyddiol.
j. Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, roedd cronfa o staff a gyflogir fel arfer gan BIPBC ar gael i bob cartref gofal pe bai angen staff ychwanegol.
k. Cynhaliwyd ymyriadau rheoli gofal a diogelu yn rhithiol, gan gynnwys asesiadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid.
l. Cyfyngwyd ymwelwyr â chartrefi gofal i'r rheini a oedd yn ymweld â phobl a oedd yn derbyn gofal diwedd oes yn unig lle'r oedd hynny'n briodol, a gweithredwyd cyswllt gofalus yn yr awyr agored yn unol â rheoliadau cenedlaethol.
m. Er mwyn sicrhau bod preswylwyr, teuluoedd a ffrindiau yn cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod clo, prynodd a dosbarthodd y Cyngor Ipads i bob cartref gofal a reolir yn fewnol.
n. Roedd tudalen iechyd a lles ar borth E-ddysgu'r Cyngor yn cynnig cyfoeth o gyngor a chymorth i staff.
o. Roedd cyfathrebiadau wythnosol gan y Prif Weithredwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i holl gartrefi'r Cyngor trwy gydol y pandemig.

5.2.3. Canlyniad

a. Nifer gymharol fach o breswylwyr a staff cartrefi gofal oedd wedi profi'n bositif am Covid-19 yn ystod y cyfnod Mawrth - Medi, 2020 a hynny'n rhannol oherwydd y mesurau rheoli risg cadarn a orfodwyd gan y Cyngor a'r cydweithio integredig effeithiol gyda phartneriaid allweddol:

- Nifer y gwelyau cartrefi gofal sydd gan y Cyngor - 130
- Nifer y marwolaethau yng nghartrefi gofal y Cyngor - 1
- Nifer y preswylwyr a brofodd yn bositif - 10
- Nifer y staff a brofodd yn bositif - 10

b. Cafwyd achos Covid yn un o gartrefi gofal y Cyngor yn gynnar yn y cyfnod clo. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwnnw fel glasbrint i ymdrin ag unrhyw achosion yn y dyfodol ac i lywio ein cynllun ar gyfer ymchwydd a'n cynllun Pwysau'r Gaeaf

c. Mae gwneud y defnydd mwyaf posib o gyfryngau cymdeithasol a thechnoleg i rannu negeseuon, cynnal ymgynghoriadau clinigol a chynnal cyswllt cymdeithasol â pherthnasau wedi bod yn ddatblygiad effeithiol i'w groesawu er mwyn gwella profiadau personol a mynediad at ymyriadau amserol

d. Mae angen monitro effaith tymor hir unigedd, straen ac ansicrwydd mewn amgylchedd cartref gofal caeedig yn ystod yr amser digynsail hwn, gan adnabod a gweithredu mesurau ymyrraeth gynnar i sicrhau cynaliadwyedd dros y misoedd nesaf ac er mwyn recriwtio i'r gwasanaeth ar gyfer y tymor hir. Bydd profiadau preswylwyr yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i ailfodelu a gwella gofal a chefnogaeth o fewn amgylcheddau cartrefi gofal.

**5.3 Effaith ar gyllidebau'r Cyngor (gan gynnwys talu arian grant)**

5.3.1 Yr her

Mae'r pandemig wedi creu lefel sylweddol o ansicrwydd yng nghyllideb 2020/21 a hefyd ar gyfer cyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol:

a. Mae Covid-19 wedi arwain at gwtogi neu gau gwasanaethau'r Cyngor yn llwyr; costau uwch yn y tymor byr wrth ddelio â'r pandemig; lleihau ffrydiau incwm masnachol y Cyngor yn sylweddol; bydd yn cynyddu nifer y trethdalwyr sydd angen cymorth gyda'r Dreth Gyngor[4] a chynyddu lefelau'r Dreth Gyngor sydd ddim yn cael ei thalu. Bydd hyn i gyd yn effeithio ar lif arian ac incwm refeniw'r Cyngor

b. Gallai lleddfu'r cyfyngiadau, yr adferiad a'r normal newydd gynyddu costau gan y bydd angen i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau mewn ffordd wahanol. Bydd costau cychwynnol o ran cyflawni'r newid, costau parhaus ychwanegol o bosib a gostyngiad yn y ffrydiau incwm a gynhyrchir gan wasanaethau efallai.

c. Bydd lefel y gefnogaeth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru i liniaru effaith y cyfnod clo hyd yma yn cael sgil-effaith ar lefelau gwariant cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu newidiadau yn lefel y cyllid y bydd y Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi diweddaru Aelodau yn anffurfiol mewn Sesiwn Friffio[5] a rhoddwyd diweddariad ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith[6]. Gweler y ddolen isod i'r

[4] Cymorth ar gael drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

[5] Sesiwn Friffio fisol ar 2 Gorffennaf, 2020

[6] Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Gorffennaf, 2020

adroddiad:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s15832/Covid-19%20-%20Effaith%20Ariannol%20ar%20y%20Cyngor.pdf?LLL=1

5.3.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Roedd pryder cychwynnol ynghylch llif arian y Cyngor a chynnal balansau arian parod digonol i ddelio â'r pandemig. Ar ddechrau'r argyfwng, nid oedd yn eglur beth fyddai'r costau ychwanegol ac a fyddai'r Cyngor yn dal i dderbyn incwm ar ffurf taliadau Treth Gyngor i helpu i ariannu ei ymrwymiadau ariannol. Trwy drefnu benthyciad £10m am flwyddyn  a thrwy i Lywodraeth Cymru dalu cyllid Grant Cynnal Refeniw a Grantiau Busnes ymlaen llaw, cafodd y risg hon ei lliniaru a chynhaliodd y Cyngor falansau arian parod iach trwy gydol cyfnod yr argyfwng
b. Yn ystod yr argyfwng, cafodd y Cyngor gostau ychwanegol o ran sicrhau PPE, darparu cymorth i brif ddarparwyr gwasanaeth y Cyngor (cartrefi preswyl a nyrsio yn bennaf), darparu llety addas i'r digartref, taliadau i deuluoedd yn lle prydau ysgol am ddim, costau glanhau ychwanegol a sicrhau y gallai staff weithio gartref. Darparodd Llywodraeth Cymru £123m i Gynghorau Cymru i gwrdd â'r costau a gafwyd yn ystod y chwarter cyntaf. Am y cyfnod Mawrth, 2020 i Fehefin, 2020, cyflwynodd y Cyngor hawliadau a oedd yn werth cyfanswm o £1.77m i Lywodraeth Cymru ac mae wedi derbyn dros £1.6m o gyllid ychwanegol a disgwylir iddo dderbyn y gweddill maes o law
c. O ganlyniad i'r cyfnod clo, caewyd nifer o wasanaethau'r Cyngor sy'n cynhyrchu incwm i'r Cyngor hefyd. Roedd hwn yn bwynt a godwyd gyda Llywodraeth Cymru gan bob un o'r 22 Cyngor. Mewn ymateb, darparodd Llywodraeth Cymru £78.1m cychwynnol i ddigolledu am golli incwm yn ystod y chwarter cyntaf. Gan fod amgylchiadau pob Cyngor yn wahanol gyda rhai Cynghorau yn fwy dibynnol ar incwm o wasanaethau nag eraill, rhannwyd yr arian ar sail hawliadau yn hytrach na thrwy fformiwla. Mae'r Cyngor wedi hawlio £0.774m am y chwarter cyntaf ac wedi derbyn £0.725m mewn cyllid ychwanegol hyd yma a disgwylir iddo dderbyn y gweddill maes o law.

5.3.3 Risgiau sy'n parhau a Chanlyniadau

a. Canlyniad mawr yn sgil y pandemig yw'r effaith ar yr economi gyda chynnydd mewn diweithdra y rhagwelir y bydd yn gwaethygu wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben. Mae 2 ganlyniad i'r Cyngor yn sgil hynny - cynnydd yn nifer y trethdalwyr sy'n ceisio am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a chynnydd yn nifer y trethdalwyr sydd ar ei hôl hi gyda thaliadau Treth Gyngor ac a fydd, yn y pen draw, yn methu talu'r swm sy'n ddyledus.
b. Ym mis Gorffennaf, 2020, roedd nifer y bobl yn Ynys Môn a oedd yn ymgeisio am Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu 6.7%. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gorwariant oddeutu £200k ar gyllideb y Cyngor ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a hynny mewn cyllideb o £6.1m. Fodd bynnag, mae'r rhagolwg hwn yn debygol o waethygu wrth i'r cynllun Ffyrlo ddod i ben ac wrth i ddiweithdra gynyddu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol o £2.85m i helpu Cynghorau i gwrdd â'r costau ychwanegol a gafwyd yn y chwarter cyntaf.
c. Nid ydym hyd yma wedi gweld yr holl effaith ar gyfraddau casglu'r Dreth Gyngor ond hyd yma mae'r cyfraddau casglu ledled Cymru yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Ni chymerwyd unrhyw gamau adennill ffurfiol er bod nodiadau atgoffa anffurfiol wedi'u hanfon ym mis Awst. Unwaith y bydd y camau adennill yn cychwyn o ddifrif byddwn wedyn yn gweld yr effaith ar gyfraddau

casglu wrth i drethdalwyr fethu â thalu eu Treth Gyngor yn llawn. Efallai na fydd yr effaith yn gwbl hysbys am 2 i 3 blynedd arall pan fydd yr holl ffyrdd posib o adennill dyledion wedi eu gweithredu a'r dyledion wedi eu dileu.

d. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae gwasanaethau wedi ailgychwyn ond mae'r angen am bellter cymdeithasol wedi effeithio ar gapasiti rhai gwasanaethau (canolfannau hamdden, Oriel Môn) a bydd y dirywiad yn yr economi yn lleihau ffynonellau incwm eraill (incwm o feysydd parcio, ffioedd cynllunio ac ati). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi swm pellach o £89m i helpu Cynghorau gwrdd â'r diffyg a fydd yn deillio o'r cyfnod o Orffennaf, 2020 i Fawrth, 2021

e. Bydd y Cyngor yn parhau i gael costau ychwanegol wrth i wasanaethau ailddechrau (mae glanhau ysgolion yn enghraifft dda) ond bydd hefyd angen helpu darparwyr gofal cymdeithasol i ddelio â'r costau ychwanegol a'r golled incwm dros y misoedd nesaf. Mae risg hefyd o ail don a allai arwain at ail gyfnod clo a chynyddu'r costau ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £57m ychwanegol i gwrdd â'r costau ychwanegol yn ystod yr ail chwarter a £24.9m i helpu gyda chost ychwanegol glanhau ysgolion. Mae £48m arall ar gael i gwrdd â'r costau ychwanegol y mae Cynghorau yn eu hwynebu yn ystod ail hanner y flwyddyn, er y gallai fod cyllid pellach ar gael hefyd.

5.3.4 Canlyniad

a. Mae'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â phryderon ariannol Cynghorau yng Nghymru ac mae'r sefyllfa alldro bosib ar gyfer Ynys Môn yn debygol o fod yn sylweddol well na'r senario waethaf a adroddwyd arni i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, mae yna nifer o bethau a allai ddigwydd yn ystod ail hanner y flwyddyn a fyddai'n gwaethygu sefyllfa ariannol y Cyngor unwaith eto e.e. ail gyfnod clo.

b. Mae'r risg ariannol fwy sylweddol i'r Cyngor yn ymwneud â chyllideb 2021/22 a'r tu hwnt. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar economi'r DU ac nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fydd hyn yn arwain at lai o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor canol i'r tymor hir. Mae'n debygol y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael y flaenoriaeth o ran derbyn unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol ond a fydd hynny'n arwain at lai o arian ar gyfer gwasanaethau eraill? Bydd adroddiad llawn ar Gynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor a'r sefyllfa ariannol dybiedig (rhagolwg chwarter 1) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi, 2020.

Yn ddiweddar rhoddodd y Panel Sgriwtini Cyllid[7] sylw manwl i effaith y pandemig ar gyllid y Cyngor. Bydd adroddiad llafar yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor gan gadeirydd y Panel (y Cynghorydd Dafydd Roberts).

### 5.4 Adleoli staff y Cyngor

5.4.1. Yr her

- Mae staff y Cyngor yn cael eu penodi a'u contractio i swyddi penodol ac nid oes disgwyl iddynt na rhaid iddynt gyflawni gwaith neu swyddogaethau gwahanol. Fodd bynnag, yn gynnar yn 2020 roedd yr Awdurdod yn un o ychydig yng Nghymru a oedd wedi cytuno â'r undebau llafur i fabwysiadu polisi sy'n caniatáu ar gyfer adleoli staff mewn argyfwng. Yn sgil y polisi

[7] Cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid ar 3 Medi, 2020

roedd y Cyngor yn gallu mynd at staff a gofyn iddynt wneud gwaith amgen yn ystod y pandemig.

5.4.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Sefydlu Cyfnewidfa Cyfleoedd lle gallai ceisiadau am gymorth gael eu hysbysebu'n fewnol yn yr Awdurdod a gallai staff wneud cais amdanynt neu gael eu cyfatebu iddynt
b. Llenwyd 800 o ffurflenni gan staff yn nodi eu parodrwydd i gael eu hadleoli
c. Gweithiodd staff mewn timau traws-wasanaeth i gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol.

5.4.3 Canlyniad

a. Anfonwyd 3394 o lythyrau cysgodi i drigolion Ynys Môn lle cysylltodd staff â nhw mewn cyfnod byr i gynnig cymorth
b. Gwnaethpwyd 200 o geisiadau am barseli bwyd Llywodraeth Cymru ac fe'u dosbarthwyd yn uniongyrchol i gartrefi
c. Darparwyd parseli banciau bwyd a danfonwyd blychau bwyd i’n trigolion bregus mewn partneriaeth â Menter Môn a bwyty Dylan’s, gyda 13 aelod o staff yn cael eu hadleoli i gynorthwyo’r gwasanaeth
d. Sefydlwyd trefn profi, olrhain a diogelu. ‘Roeddem yn un o ddim ond dwy ardal beilot yng Nghymru a defnyddiwyd ein staff ein hunain a oedd wedi trosglwyddo o'u gwaith arferol

**5.5 Gweithio o bell yn ddiogel a’r dyfodol**

5.5.1 Yr her

- Mae staff y Cyngor yn defnyddio gliniaduron Windows fel eu prif ddyfeisiau. Mae'r dyfeisiau hyn wedi'u defnyddio a'u cynnal trwy dddefnyddio dulliau diweddaru a chynnal sy'n dibynnu ar gysylltiad rheolaidd â serfwyr yr Awdurdod
- Yn hanesyddol. mae staff wedi bod yn defnyddio Skype i gyfathrebu trwy fideo a Negeseuon Gwib ond roedd yn annhebygol o gynnig yr elfennau sefydlogrwydd a chydweithio sy'n ofynnol ar gyfer cyfnod estynedig o weithio gartref. Cynhyrchu ffurflenni a systemau sy'n caniatáu i'r Awdurdod addasu i'r pandemig a newid fel rhan o'r Adferiad a pharatoi ar gyfer unrhyw donnau pellach.

5.5.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Newidiwyd gosodiadau system i sicrhau nad oedd dyfeisiau'n cael eu datgysylltu o'r serfwyr os na chânt eu gweld ar y rhwydwaith am gyfnodau estynedig o amser
b. Anablu sgriptiau i ailgychwyn serfwyr Windows yn awtomatig a gweithredu amserlen faniwal ar gyfer clytio i leihau'r amser pan fo cyfrifiaduron i lawr, gan glytio’n briodol yn y gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt
c. Mwy o drwyddedau Citrix i sicrhau darpariaeth ar gyfer digon o gysylltiadau cydamserol
d. Cynyddu'r adnoddau a neilltuwyd i'r adnoddau Citrix i sicrhau bod digon o adnoddau cyfrifiadurol ar gael ar gyfer y baich ychwanegol
e. Darparwyd 300 o docynnau mynediad o bell ychwanegol
f. Defnyddiwyd Microsoft Teams a chrewyd strwythurau Tîm i gynorthwyo staff gyda chyfathrebu a chydweithio
g. Cynhyrchwyd canllawiau ar gyfer Microsoft Teams a hyfforddiant wedi'i dargedu i sicrhau bod y defnydd o Teams wedi gwreiddio
h. Gweithredwyd un pwynt cyswllt ar gyfer ceisiadau i sicrhau y byddai'r TRhYA yn gallu adolygu a blaenoriaethu amser ac adnoddau'r uned TGCh
i. Gweithredwyd dull diogel o gynnal dyfeisiau a darparu rhai newydd

j. Creu ffurflenni a chanllawiau ar gyfer ailagor gwasanaethau'n raddol gan gynnwys canolfannau ailgylchu gwastraff cartref ac archwiliadau rheoli adeiladu

**5.6 Diogelu unigolion bregus a materion llesiant ehangach y tu hwnt i gyfrifoldebau diogelu statudol**

5.6.1. Yr her

- Cwrdd ag anghenion yr **HOLL** drigolion (gan gynnwys plant a'u teuluoedd) yn ystod y pandemig, a oedd yn golygu bod y Cyngor yn cydgysylltu ystod o brosiectau newydd ac arloesol gyda phartneriaid a'r trydydd sector.
- Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio'n dda gyda phartneriaid a sefydliadau'r trydydd sector i gyflawni dyletswyddau anstatudol er mwyn gwella canlyniadau i drigolion Ynys Môn.
- Roedd y Pandemig yn golygu ein bod wedi gwella neu adeiladu ar ddarpariaeth a oedd eisoes yn bodoli ac ehangu ystod gyfan o wasanaethau ledled yr Ynys

5.6.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Yn Ynys Môn, sefydlwyd Partneriaeth i ddarparu cefnogaeth i bobl fregus yn ein cymunedau yn ystod wythnosau cyntaf y pandemig. Gellir gweld y datganiad o weithio ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Menter Môn yma:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/ynys-mon-wedi-ymrwymo-i-gefnogi-gwirfoddolwyr-syn-helpu-pobl-fregus-yr-ynys

b. Datblygwyd canllawiau cymunedol ynghylch Covid -19 a gwybodaeth bwysig arall, gweler y ddolen isod. Mae'r ddolen hefyd yn cynnwys manylion cyswllt cydlynwyr cymunedol a chwmnïau danfon bwyd

c. Sefydlwyd Grŵp Llywio gyda swyddogion allweddol o'r tri sefydliad sy'n rhan o'r bartneriaeth a gweithredwyd tair ffrwd waith, sy'n cynnwys:
   - Ffrwd Waith Bwyd – yn cynnwys y banc bwyd a pharseli bwyd dan y prosiect Neges
   - Gwirfoddoli – gwirfoddolwyr arbenigol a chymunedol ledled yr ynys
   - Cyfeillio a llesiant (yn cynnwys y rheini a oedd yn cysgodi)

d. Adolygwyd pob llif gwaith trwy wneud galwadau cynhadledd penodol, sy'n digwydd naill bob pythefnos neu bob tair wythnos. Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, roedd y galwadau hyn yn cael eu gwneud yn wythnosol. Datblygwyd cylchlythyr partneriaeth a gyhoddwyd bob yn ail wythnos i roi gwybodaeth am weithgareddau pawb sy'n rhan o'r bartneriaeth a'r cynnydd gwaith.

e. Sefydlodd y Cyngor linell ffôn ymateb brys benodol gyda 9 opsiwn ac ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Mae Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gael trwy ein Pwynt Mynediad Sengl yn y gymuned a hwylusir gan Medrwn Môn ac a gefnogir gan Gydlynwyr Asedau Lleol (asiantiaid cymunedol sy'n cysylltu unigolion ag asedau a gwasanaethau cymunedol - elfen allweddol o'n gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol).

f. Yn ystod y cyfnod clo, sefydlwyd dau fanc bwyd dros dro ar yr Ynys, un yn Llangefni a'r llall ym Mhorthaethwy. Gwnaed hynny trwy'r llif gwaith Bwyd sy'n cynnwys Gwasanaethau Tai, Banc Bwyd Ynys Môn a'r CAB. Roedd y banciau bwyd ychwanegol hyn yn gweithio ar y cyd â'r banciau bwyd sydd eisoes wedi hen sefydlu ac sy'n gweithredu yng Nghaergybi ac Amlwch.

g. Yn ystod y cyfnod clo a hyd at 28 Gorffennaf dosbarthwyd cyfanswm o 742 o becynnau bwyd o'r 4 banc bwyd sy'n gweithredu ar yr Ynys,

h. Sefydlodd Menter Môn, ar y cyd â bwyty Dylan's, y prosiect Neges a oedd yn dosbarthu pecynnau bwyd, gan gynnwys prydau wedi'u paratoi'n ffres. Dosbarthwyd tua 3000 o becynnau bwyd i unigolion yn ystod y cyfnod.

i. Ymatebodd Medrwn Môn ac addasu fel bod ei weithgareddau yn canolbwyntio ac yn troi o gwmpas yr ymateb i Covid-19. Mae Medrwn Môn yn rhedeg Rhaglen Un Pwynt Mynediad a Phresgripsiynu Cymdeithasol yn y Sector Gwirfoddol o'r enw Linc Cymunedol Môn, a defnyddiwyd y gwasanaeth hwn gyda'i linell ffon a'i gyfleuster e-bost i gydlynu elfen cymorth cymunedol yr ymateb. Defnyddiwyd y llinell ffon hon i nodi Gwirfoddolwyr a Chydlynwyr Timau Ardal dan arweiniad Gwirfoddolwyr. Fe'i defnyddiwyd hefyd i gyfeirio pobl oedd angen cymorth. Bu cynnydd yn nifer y bobl a gafodd gymorth gan Linc Cymunedol Môn yn y cyfnod COVID, gyda'r gwasanaeth yn derbyn 146 o atgyfeiriadau unigol newydd yn y cyfnod o 20 wythnos a gwnaed 134 o alwadau i'r llinell argyfwng a sefydlwyd gan y Cyngor i ddarparu gwybodaeth am gymorth cymunedol.

j. Roedd y dull hwn o weithredu'n golygu bod yn rhaid i Medrwn Môn newid y ffordd o ddarparu eu gwasanaethau, sef newid o gyswllt wyneb yn wyneb i wneud galwadau ffôn a pheidio ymweld â chartrefi oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol. Fodd bynnag, ni fu newid yn yr hyn yr oedd gan Medrwn Môn i'w gynnig o ran gwasanaethau, ac mewn sawl ffordd, llwyddwyd i wella'r hyn yr oeddent yn medru ei gynnig, gan eu bod wedi gallu cynorthwyo i sefydlu 36 o Dimau Cymorth Ardal dan arweiniad Gwirfoddolwyr a chanddynt dros 850 o wirfoddolwyr yn gweithredu. Arweiniodd hyn at sefydlu Banc Gwirfoddolwyr Môn. Roedd pobl fregus ar yr Ynys yn dal i allu derbyn neges o'r siop ac eitemau hanfodol, meddyginiaeth, parseli bwyd a gwybodaeth am ba wasanaethau oedd ar gael iddynt yn ystod yr 20 wythnos ddiwethaf.

- Rhwng Mawrth - Mehefin, 2020 gwelodd y banciau bwyd gynnydd sylweddol yn y galw wrth i lawer o aelwydydd golli incwm oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Sefydlwyd dau fanc bwyd dros dro yn gyflym yn Llangefni a Chaergybi i helpu banciau bwyd sydd eisoes wedi'u lleoli yng Nghaergybi ac Amlwch.

- Mae'r banciau bwyd wedi gweld galw am barseli bwyd yn cynyddu 400% o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd:
  - Ers y cyfnod clo, dosbarthwyd cyfanswm o 1,440 o barseli gan bob banc bwyd ar yr Ynys. Mae hyn yn cyfateb i werth bron i £40k o fwyd. Trwy amrywiol ymdrechion codi arian, mae gan y banciau bwyd ddigon o fwyd a chyllid os byddwn yn gweld ymchwydd yn y lefelau heintio. Mae banciau bwyd hefyd wedi arallgyfeirio i gynnig eitemau bwyd ffres a bwyd wedi ei rewi fel rhan o'u parseli bwyd.
  - Mae'r prosiect Neges wedi danfon 2858 o barseli ar Ynys Môn. Ers canol mis Mawrth, mae'r prosiect Neges wedi cyflenwi mwy na 3,000 o flychau ar gyfer dros 8,000 o bobl, yr holl gynnwys wedi dod gan gyflenwyr cadwyni bwyd lleol.

5.6.3. Canlyniad

a. Roedd y gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn o dan y Cyllidebau Cyfun UPM a'r Rhaglen Phresgripsiynu Cymdeithasol, Linc Cymunedol Môn, yn golygu y gellid rhannu gwybodaeth yn rhwydd ac yn llyfn am unigolion a fyddai angen help. Bu modd defnyddio gwahanol ddulliau i ymgysylltu â'r unigolion hynny er mwyn sicrhau na adawyd neb heb unrhyw fath o gefnogaeth. Cysylltwyd â dros 3,000 o bobl fel rhan o'r broses hon.
b. Roedd y broses o rannu gwybodaeth a'n gweithdrefnau adrodd ar y cyd hefyd yn golygu y gallai unigolion gael eu croesgyfeirio ymlaen at wahanol bartneriaid ac y gellid uwchgyfeirio materion yn gyflym ar gyfer ymateb pan oedd angen.
c. Derbyniodd y gwirfoddolwyr yn y Timau Cymorth Ardal ganllawiau cynhwysfawr, gyda Chydlynwyr Timau Ardal yn cael eu cysylltu â'u Cydlynydd Asedau Lleol yn Linc Cymunedol Môn fel eu bod yn gallu cyfeirio pobl oedd angen cymorth ychwanegol yn uniongyrchol at eu Cydlynydd Asedau Lleol.

d. Dros gyfnod o 20 wythnos mae Timau Cymorth Ardal Gwirfoddol a Linc Cymunedol Môn wedi gwneud y canlynol:

- Danfon 1,800 o bresgripsiynau
- Gwneud 8,426 o alwadau cadw mewn cysylltiad
- Cyfeirio 160 o bobl i Fanciau Bwyd / y Cynllun Neges
- 12,125 o Droeon Da ar gyfer 1689 o bobl (hyd at wythnos gyntaf mis Awst)

e. Mae Medrwn Môn hefyd wedi gallu helpu i sefydlu 8 Cynllun Tro Da o'r timau cymorth presennol, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw gwirfoddolwyr a bod y math hwn o gefnogaeth yn parhau yn y tymor hir. Bydd yr 8 hyn yn ymuno â 3 Chynllun Tro Da a sefydlwyd yn flaenorol ac a addasodd eu ffyrdd o weithio o dan COVID i sicrhau bod mwyafrif yr Ynys yn cael gwasanaeth.

f. Wrth i i ni symud i'r Cyfnod DIOGELU, bydd hyn yn cryfhau'r cynnig a bydd Medrwn Môn yn cefnogi'r Cynlluniau Tro Da trwy’r ddarpariaeth staff gyfredol o dan raglen Linc Cymunedol Môn a'r Trydydd Sector yn ehangach.

g. Bu'n rhaid i ni fod yn fwy hyblyg ac arloesol yn y gefnogaeth rydym ni'n ei rhoi i ofalwyr.

h. Parhau i roi cymorth wedi'i deilwrio ar ffurf cyswllt dros y ffôn / fideo / ar-lein, galwadau cadw mewn cysylltiad, grantiau brys ymatebol, gwybodaeth a chyngor penodol ynghylch pryderon ariannol, eiriolaeth lefel isel, cyfeirio pobl at gymorth yn y gymuned, gan gynnwys banciau bwyd, grwpiau rhithwir , llythyrau teithio, masgiau diogelu i ofalwyr, cylchlythyr penodol, rhannu pryderon gyda chyrff priodol, cefnogaeth i ofalwyr ynghylch gweithdrefnau rhyddhau newydd a chymorth i ofalwyr unigolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd meddwl. Gwnaed dros 3000 o gysylltiadau â gofalwyr yn ystod y cyfnod hwn.

i. Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi sefydlu gwasanaeth ymateb dros dro newydd i’r sefyllfa Covid o’r enw ‘galwadau cydymaith’. Mae'r galwadau cydymaith yn cynnig gwasanaeth lle mae gwirfoddolwr hyfforddedig yn cysylltu â phobl â dementia yn rheolaidd .

j. Mae Gweithwyr Cymdeithasol wedi bod yn cefnogi gofalwyr trwy gadw mewn cysylltiad â nhw'n rheolaidd dros y ffôn. Yn dilyn asesiad risg, a chan gadw at ganllawiau pellhau cymdeithasol llym, mae ymweliadau cartref hefyd wedi bod yn digwydd dros yr wythnosau diwethaf.

k. Roedd Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Tîm o Amgylch y Teulu a Gweithwyr Ieuenctid yn cadw mewn cysylltiad â phlant bregus a'u teuluoedd, gan ddosbarthu Prydau Ysgol Am Ddim, darparu bagiau gweithgaredd (dros 600 i gyd) a rhoi cyngor ac arweiniad i rieni a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi trwy gydol y cyfnod hwn.

l. Mae diffyg gofal dydd a gofal seibiant wedi arwain at gynnydd yn y gwasanaeth eistedd gyda phobl a gynigir i roi ysbaid i ofalwyr.

m. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio cyllid CGC i ddarparu mwy o'r rhaglen ‘canu ar gyfer yr ymennydd’ sy'n cael ei rhedeg gan y Gymdeithas Alzheimer. Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu rhaglen hyb cymunedol rhithiol gyda 4 o'n hybiau cymunedol ac un o'r timau ardal gwirfoddol. Prynwyd 120 o ddyfeisiau electronig ynghyd â bwndel data 90 diwrnod ar gyfer aelodau'r hybiau nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd. Bydd drafft terfynol o'r wefan yn barod erbyn dechrau mis Medi.

n. Roedd angen gwneud darn ychwanegol o waith ar gyfer y cynllun casglu Meddyginiaeth. Fe ddaru Clystyrau Meddygon Teulu Môn ariannu gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio gan Medrwn Môn. Yn sgil asesiadau risg ychwanegol a gwaith a wnaed gyda Phennaeth Fferylliaeth a Meddyginiaethau BIPBC (Ardal y Gorllewin) llwyddodd Medrwn Môn i roi'r rhaglen ar waith mewn pythefnos, bron i fis cyn i'r rhaglen gael ei sefydlu gan y Groes Goch.

o. Mewn ymateb i'r pandemig fe aethom ati i addasu'r ffordd o ddarparu'r cymorth hwn, ond dim ond ychydig a newid a fu yn y math o gefnogaeth a gynigiwyd. Cael cyflenwadau bwyd oedd y flaenoriaeth i lawer o'r bobl a gysylltodd â ni.

p. Yn sgil COVID newidiodd ein ffordd o ddarparu ein gwasanaethau. Yn ychwanegol at ein gwasanaethau ffôn ac ar-lein, gwnaed gwaith uniongyrchol ar lawr gwlad gan ein Timau Cymorth Ardal dan arweiniad gwirfoddolwyr. Daethom i sylweddoli'n

gyflym, fodd bynnag, fod ein cymunedau wedi dechrau gofyn am wahanol fathau o gefnogaeth wrth iddynt ddod yn fwy unig ac ynysig. Er bod y Galwadau Cadw mewn Cysylltiad yn dal i ddigwydd, roedd unigolion eisiau mwy o weithgareddau i'w cadw'n brysur. Gweithiodd Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth ag Age Cymru Gwynedd & Môn a Medrwn Môn i sicrhau arian i redeg gwefan hybiau cymunedol rhithwir. Mae'r cynllun peilot hwn yn cael ei ddatblygu gyda llond llaw o'n hybiau cymunedol a dau o'n Timau Cymorth Ardal a bydd yn cynnig cyfle i'r rhai mwyaf bregus ac ynysig yn yr ardaloedd hynny gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ar-lein, teithiau rhithwir o dirnodau lleol, a digwyddiadau ar-lein.

q. I ni yma yn Ynys Môn, mae'r pandemig wedi cryfhau ein Model Adeiladu Cymunedau ac wedi ein symud ymlaen yn gyflymach tuag at adeiladu cymunedau mwy gwydn sy'n gallu cynorthwyo eu hunain a gweithio mewn partneriaeth â ni i nodi pryd a sut mae nhw'n dymuno cael mewnbwn gan ein gwasanaethau.

r. Ar hyn o bryd rydym yn ailagor ein gwasanaethau dydd yn raddol yn dilyn y broses asesu risg gorfforaethol. Mae'r holl wasanaethau a ddarperir gan yr adran plant a theuluoedd wedi dychwelyd i ryngweithio wyneb yn wyneb yn bennaf. Bydd grwpiau rhianta yn parhau i gyfarfod yn rhithiol.

s. Yn ystod anterth y pandemig, roedd gan y 36 tîm Cymorth Ardal dros 850 o wirfoddolwyr, a gwnaeth Medrwn Môn ddarn penodol o waith i geisio deall pa gapasiti oedd gan y timau hynny ar benwythnosau a chyda'r nos pe bai nifer y ceisiadau'n cynyddu. Dywedodd pob tîm y gallent ymdopi pe bai'r galw am eu cymorth yn cynyddu ac roeddent yn teimlo bod ganddynt fwy o wirfoddolwyr nag oedd eu hangen mewn gwirionedd ar rai adegau.

t. Dros yr wythnosau diwethaf mae Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau'r Trydydd Sector i edrych ar eu 10 Gwers a Ddysgwyd o'r 5 mis diwethaf. Mae pob sefydliad wedi darparu manylion am Wersi a Ddysgwyd ac ar hyn o bryd mae'r Grŵp Llywio yn edrych ar bob un ohonynt fel y gallwn nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau ar draws y sefydliadau er mwyn medru cynllunio ar gyfer ail don bosib neu i symud tuag at y cam DIOGELU. Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yn gyffredinol yw bod rhannu gwybodaeth yn ystod y cyfnod, a'r ffordd y rhannwyd y wybodaeth honno, wedi bod yn gadarnhaol ymysg yr holl bartneriaid.

u. Bu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, ynghyd â'r Gwasanaeth Hamdden a'r URDD, yn darparu Hybiau Chwarae Haf i blant bregus ledled Ynys Mon.

v. Roedd y wybodaeth a ddosbarthwyd gan y Timau yn cynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer eu Cydlynydd Tîm Ardal a'r hyn yr oedd y Timau yn gallu ei ddarparu. Fe wnaeth rhai ardaloedd argraffu a danfon cylchlythyrau penodol a oedd yn ymwneud â COVID ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Timau a'r gweithgareddau roeddent wedi bod yn eu ymgymryd â nhw yn ystod y pandemig.

w. Mae partneriaid yn trafod hygyrchedd ac ystyriaethau iaith bob amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod COVID a maint y wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn arbennig o ddryslyd i lawer o bobl.

x. Gwnaethom yn siŵr bod ein Bwletinau, cylchlythyrau, arweiniad, taflenni ac ati yn hawdd eu darllen a'u deall, yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Fe wnaethom hefyd gynhyrchu nifer o fideos byr ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Roedd y fideos hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar ddechrau'r cyfnod pandemig gan iddynt dynnu sylw at fylchau mewn Timau Cymorth Ardal. Defnyddiwyd y fideos hyn felly i recriwtio gwirfoddolwyr a hefyd i rannu straeon gwirfoddolwyr ac i ddiolch i'r rheini a oedd wedi helpu.

**5.7 Rheoli’r Drefn Profi, Olrhain a Diogelu (POD) ar lefel leol**

5.7.1 Yr her

a. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r 'Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu ar gyfer profi'r cyhoedd ac olrhain lledaeniad Coronafeirws yng Nghymru.
    i. (https://gov.wales/test-trace-protect
b. Amlinellodd y Cynllun dri gweithgaredd mawr yr oedd angen eu datblygu
    i. Cadw llygad ar y Boblogaeth
    ii. Samplu a Phrofion
    iii. Olrhain Cyswllt a Rheoli Achosion

c. Mae'r Strategaeth yn amlinellu dull tair haen o Olrhain Cyswllt yng Nghymru - Haen Genedlaethol, Cell Ranbarthol a Chell Leol
d. Nid oedd modd cyflawni'r strategaeth yn effeithiol trwy ddefnyddio adnoddau gwarchod iechyd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu Lywodraeth Leol ac o ganlyniad roedd natur y wybodaeth am gleifion i'w chasglu a'i dosbarthu yn golygu y byddid yn ceisio sicrhau'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r strategaeth trwy adleoli gweithwyr sector cyhoeddus
e. Mae defnyddio gweithlu anarbenigol yn hanfodol er mwyn caniatáu i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd arbenigol a'r timau gwarchod iechyd arbenigol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ganolbwyntio ar y tasgau a'r achosion mwy cymhleth.
f. Gwirfoddolodd CSYM, yn seiliedig ar brofiad o gynllun peilot a weithredwyd yng Ngheredigion, i sefydlu a threialu proses Olrhain Cyswllt ar yr Ynys i lywio datblygiad Model Rhanbarthol

5.7.2 Sut ymatebodd y Cyngor

a. Cydnabu CSYM, ynghyd â'r holl Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, fod ganddo rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithgaredd haen leol yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol
b. Canolbwyntiodd awdurdodau lleol ar sefydlu'r celloedd lleol tra'n dylanwadu ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y Gell Ranbarthol wedi'i sefydlu'n effeithiol i gwrdd ag anghenion lleol
c. Adolygodd CSYM y Strategaeth a chysylltodd ag Awdurdodau Lleol eraill, ICC a BIPBC i sefydlu prosiect peilot Olrhain Cyswllt ar yr Ynys i lywio datblygiad y drefn Profi, Olrhain a Diogelu ranbarthol
d. Wrth sefydlu'r Cynllun Peilot ar gyfer POD a'r dull Rhanbarthol o weithredu, fe adleolodd y Cyngor staff i'r rolau canlynol yn y Gell Leol:
    - Rheolwr Cymorth Busnes
    - Olrheinydd Cyswllt
    - Cynghorydd Cyswllt
    - Cymorth Gweinyddol
e. Darparwyd cymorth yn y maes Iechyd yr Amgylchedd gan y swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd
f. Darparwyd cefnogaeth Glinigol ac Iechyd y Cyhoedd gan y Gell Ranbarthol a arweiniwyd gan ICC / BIPBC
g. Unwaith yr oedd y broses olrhain cyswllt yn weithredol, canolbwyntiodd y Cyngor, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru, ICC a BIPBC, ar sefydlu a gwreiddio'r gwasanaeth yn y tymor hwy - roedd hyn yn cynnwys adolygu anghenion gweithlu a mabwysiadu model cyflogaeth, diogelu data, llywodraethu. ac ati.
h. Cafwyd £11.2M gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn cael ei gweithredu tan fis Mawrth 2021
i. Mae tîm cyflogedig bellach wedi ei sefydlu i sicrhau bod y broses Olrhain Cyswllt yn cael ei gweithredu'n effeithiol tan fis Mawrth, 2021

5.7.3 Canlyniad

a. Proses Olrhain Cyswllt effeithiol
b. Oherwydd yr ymateb rhagweithiol llwyddodd y Cyngor i drefnu'r haen leol yn gyflym ac yn effeithiol yn unol â'r dull cenedlaethol a rhanbarthol, a hynny gyda'r nod o leihau'r risg o haint ac i gyfyngu lledaeniad yr haint yng nghymunedau'r Ynys, gan leihau nifer yr achosion mewn ysbytai ac yn y pen draw, ostwng y cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19
c. Rheolwyd yr achosion a dorrodd allan yn y ffatri 2 Sisters yn effeithiol ac nid ymledodd i'r gymuned
d. Mae'r broses Olrhain Cyswllt yn parhau i weithredu'n effeithiol.

**6 GWERSI A DDYSGWYD A'R FFORDD YMLAEN**

Wrth ddelio ag unrhyw argyfwng mae angen pwyso a mesur, ynghyd â dysgu a chasglu gwybodaeth allweddol i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd ymarfer myfyrio a dysgu cychwynnol ddiwedd Mehefin 2020. Roedd hwn ar ffurf dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a gwblhawyd gan bob aelod o'r tîm rheoli yn eu meysydd Gwasanaeth perthnasol ac a gasglwyd ynghyd mewn un ddogfen gan y Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr. Yn dilyn adolygiad ac ystyriaeth bellach, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi cytuno ar y materion sy'n sefyll allan o safbwynt corfforaethol:

**Cryfderau**

1. Mae Technoleg Gwybodaeth wedi golygu y bu modd gweithio gartref yn effeithiol (parhad busnes)
2. Mae cyfathrebiadau o'r brig i lawr wedi bod yn effeithiol ac yn gadarnhaol
3. Mae cydweithredu'n fewnol a chyda phartneriaid wedi bod yn bwysig ac yn effeithiol (gan adeiladu ar drefniadau cyn-COVID)
4. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi addasu'n gyflym ac yn effeithiol i ffordd wahanol o weithio a / neu ofynion newydd (ymddygiadau a galluoedd newydd)
5. Gwytnwch ac ymrwymiad y gweithlu
6. Lleihau carbon a buddion amgylcheddol (angen mesur / meintioli)

**Gwendidau**

1. Anawsterau Technoleg Gwybodaeth yn y cartref (band eang, arafwch citrix ac ati)
2. Gwytnwch a hyblygrwydd y system ffôn
3. Parhau i ddefnyddio prosesau papur mewn rhai meysydd gan ddibynnu ar brosesau maniwal (llungopïo, sganio ac ati)
4. Anawsterau gweithio gartref i rai staff - methu gwneud, lleoedd gwaith anaddas, hunanynysu, goruchwylio perfformiad, cefnogi, rheoli o bell, lles ac ati.
5. Her oriau hir, sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a'r gallu i gymryd amser i ffwrdd i rai staff
6. Mae anghysondebau mewn arddulliau, galluoedd ac ymddygiadau rheoli ac arweinyddiaeth yn effeithio ar staff ac allbynnau.

**Cyfleon**

1. Manteisio ymhellach ar Dechnoleg Gwybodaeth - cyfarfodydd rhithwir, prosesu electronig, office 365, cyfathrebu ac ati.
2. Sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gweithio o'r swyddfa a gweithio gartref, gyda chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a manteision llesiant
3. Lleihau seilos Gwasanaeth, gan weithio'n fwy thematig ar draws y strwythur i wella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pherfformiad
4. Adolygu sut mae gwasanaethau'n cael eu strwythuro a'u darparu a defnyddio prosesau cysylltiedig i wella perfformiad ac effeithiolrwydd
5. Gwella effeithlonrwydd trwy leihau amseroedd teithio i gyfarfodydd, nifer y milltiroedd a deithir, yr angen am ofod swyddfa a phrosesau maniwal
6. Prif ffrydio buddion amgylcheddol, hinsawdd a digarboneiddio trwy fabwysiadu polisïau, protocolau ac arferion gweithio newydd.

**Bygythiadau**

1. Parhad a gwytnwch busnes yn dibynnu ar Dechnoleg Gwybodaeth
2. Gall gweithio gartref fod yn ddwys ac yn unig i rai staff a gall gael effaith negyddol ar gydlyniant tîm a'r gallu i integreiddio staff newydd
3. Diffyg gallu i adnabod a mabwysiadu datrysiadau digidol deinamig newydd (gyda gwrthwynebiad i newid gan rai staff)
4. Mae gwytnwch, gallu a chapasiti mewn rhai meysydd gwaith allweddol yn fregus ac yn fain.
5. Effeithiau negyddol ar les a llesiant personol rhai staff, gyda gofynion ac ansicrwydd yn creu straen a phryder (anodd eu canfod, eu cefnogi a'u rheoli o bell)
6. Rhai staff yn methu addasu a newid, gan ddod yn rhwystr i gynnydd ac effeithio'n negyddol ar eu lles eu hunain
7. Mae diwygio rheolaethau mewnol yn cynyddu'r risgiau a'r tebygolrwydd o ddiffyg cydymffurfio, twyll, camgymeridau ac ati.

Mae'r allbwn o'r broses ddadansoddi SWOT, fel y crynhoir uchod, yn cael ei ddefnyddio i lywio a dylanwadu ar y cynllun gweithredu ar gyfer adfer datblygiad y sefydliad (a phenderfyniadau cysylltiedig ar adnoddau).

**7 TREFNU A CHYNLLUNIO'R ADFERIAD**

7.1 Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Gorffennaf a 17 Awst yn adrodd ar fframwaith a ffrydiau gwaith adfer y Cyngor. Adroddir ar y rhaglenni gwaith adfer i'r byrddau rhaglenni corfforaethol yn y lle cyntaf, sy'n cynnwys mewnbwn gan Aelodau Sgriwtini. Bydd angen cyflwyno adroddiadau cynnydd o'r 2 fwrdd rhaglen i'r ddau bwyllgor sgriwtini yn rheolaidd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar y cynnydd o ran cyflawni meysydd thematig allweddol a siapio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau wrth symud ymlaen.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| |
| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| 1. Papur Sgopio: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 14/09/2020. Craffu ar Agweddau Corfforaethol Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19<br><br>Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7HF |

**Dyddiad: 25/08/20**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **14 Medi, 2020** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| |

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor. Gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2020

| |
|---|
| lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

## RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021
## [Fersiwn ddyddiedig 04/09/20]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) **(i'w gadarnhau)** |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 **(i'w gadarnhau)** | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20) [cyllideb 2021/22]** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2021/22 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer cyllideb 2021/22 | Adroddiad Safonau Ysgolion (Haf, 2020) **(i'w gadarnhau)** |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol GwE 2019/20 **(i'w gadarnhau)** |
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cyllideb Chwarter 2 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| | **Ionawr, 2021 (19/01/21)** |
| | |
| | |
| **Chwefror, 2021 (01/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (09/03/21)** |

Drafft Diweddaf

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion- ardal Llangefni**



Drafft Diweddaraf